LAWR I RUFAIN

Coffi a grapa yn y Piazza Navona
Llwch y canrifoedd ar fy ‘sgidie
Ar ôl cerdded i Rufain ar y llwybre gwyn
Mil o filltiroedd o’m cartre’
Dw’i eriod wedi gweld hewl mor hir
Erio’d wedi profi siwt wres
Erio’d wedi teimlo'r fath ryddhad
I weld dinas yn dod yn nes

Nes i fyth gyrra’dd y Piano Grande
Un mynydd yn ormod i mi
Er bod ol tra’d y Seintie fy arwain
Dros frynie y Sibillini
Ces gysgod wrth y ffynnon
Ces groeso gan y chwaer
Mewn capel bychan ar ochor y ffordd
O eiddo’r Forwyn Fair

Un cam arall ar y daith
Ar draws y tiroedd mirain
Un cam arall ar y llwybr gwyn
Sy’n gwyro ni at Rufain

Twristiaid ar y Spanish Steps
Yn disgwyl rhyw ddigwyddiad
Ac ysbryd Keats, uwchben y stryd
Yn gwylio am’i gariad
Un nos mewn offeren Lladin
A’r eglwys yn llawn canhwylle
Cynnais un arall yn y gobaith y cawn
Arweiniad at ddiwedd fy siwrne

Awn lawr i Rufain heddi
I grwydro’r ddinas fawr
‘Nol i ganfod yr hun a fu
Yn y tragwyddoldeb mawr

© Geraint Griffiths 2007